**PWYLLGOR TRWYDDEDU DIOGELWCH CYHOEDDUS**

Hysbysiad o Benderfyniad – Cyfarfod o Bell, 6 Chwefror, 2024.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd P. Drake (Cadeirydd); Cynghorydd J.M. Norman (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr G. Bruce, L. Burnett, V.P. Driscoll, C.P. Franks, E. Goodjohn, H.C. Hamilton, W.A. Hennessy, N.B. Marshallsea a R. Sivagnanam.

EITEM AGENDA 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr S.T. Wiliam a M.R. Wilkinson.

EITEM AGENDA 2. COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Tachwedd, 2023 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

EITEM AGENDA 4. CAIS I GANIATÁU DEFNYDDIO BRANDIO CORFFORAETHOL AR GERBYDAU SY'N BERCHEN I VEEZU (CAT) –

PENDERFYNWYD – Ar ôl ystyried y casgliadau mewn cysylltiad â'r Cais, ac ystyried y ddadl gan bob parti yn y cyfarfod, y dylid cymeradwyo'r Cais i ganiatáu defnyddio brandio corfforaethol ar gerbydau sy'n eiddo i Veezu. Cytunodd y Pwyllgor fod yr Ymgeisydd wedi bodloni'r profion statudol o dan adran 48 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, am y rhesymau a nodir yn yr adroddiad a'i atodiadau.

Rheswm dros y penderfyniad

Er mwyn i'r Cyngor gyflawni ei ddyletswydd i benderfynu ar y Cais, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.